Tystysgrif Lefel 4 VTCT mewn Nodwyddio Croen (Rhan-Amser) Dechrau Ionawr

Mae Tystysgrif Lefel 4 Sgiliau VTCT (ITEC) mewn Nodwyddio Croen yn gymhwyster therapi uwch sydd wedi'i anelu at ymarferwyr cymwys lefel 3 18 oed a hyn, sy'n dymuno ychwanegu'r therapi hwn at eu repertoire o gynigion triniaeth. Drwy gydol y cymhwyster hwn, bydd dysgwyr yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anatomeg a ffisioleg berthnasol ac iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â therapïau esthetig anfeddygol lefel 4. Byddant hefyd yn datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i ymgynghori â chleientiaid a'u dadansoddi wrth ddarparu triniaethau nodwyddio croen. Ochr yn ochr â hynny, bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu a gwasanaeth cwsmeriaid ac yn ehangu eu gwybodaeth am egwyddorion ac arferion therapïau esthetig anfeddygol lefel 4, sydd i gyd yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr.

Gofynion Mynediad

Ymarferydd Therapi Harddwch Lefel 3 cymwys

Rhagolygon Gyrfa

Prif bwrpas y cymhwyster hwn yw paratoi dysgwyr ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant esthetig anfeddygol uwch sy'n darparu technegau nodwyddio croen. Yn ogystal, gall dysgwyr ddewis datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach trwy gwblhau cymwysterau arbenigol atodol ar lefel 4 mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol:

- Plicio croen
- Micro-bigmentiad ar gyfer technegau aeliau

Modiwlau'r cwrs

Egwyddorion ac ymarfer therapïau esthetig anfeddygol
Ymgynghoriad uwch ar gyfer therapïau esthetig anfeddygol
Gofal croen uwch ar gyfer therapïau esthetig anfeddygol
Darparu triniaethau nodwyddio croen cosmetig

Asesiad

I gael y cymhwyster hwn, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r asesiadau canlynol yn llwyddiannus:

• Arholiad ymarferol wedi'i raddio, wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol a gwaith damcaniaeth wedi'i farcio.

• Aseiniad/prosiect ac astudiaethau achos clinigol wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol.

DULL ASTUDIO

PT

LLEOLIAD

Coleg Bannau Brycheiniog - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

10 Wythnos

FFIOEDD

25/26 fees: £200